


THE ROYAL MINT MUSEUM

REMEMBERING DECIMALISATION 1971 2021 WHAT'S THAT IN OLD MONEY?

# Stori degoli arian



THE ROYAL MINT® MUSEUM

**Ffordd newydd o gyfrif**

Mae pob un ohonom mor gyfarwydd â'r newid yn ein pocedi nad ydym yn meddwl ddwywaith amdanynt.
Mae'r darnau arian a ddefnyddiwn bob dydd yn wrthrychau mor gyffredin, ydych chi erioed wedi meddwl am sut cânt eu gwneud neu pam maen nhw'n edrych y ffordd maen nhw?



This booklet has been prepared mainly for the smaller retailer but will be of interest to everyone whose business involves trading with the public on a cas basis. For the sake of simplicity, expressions like 'shop' and 'shopping' are used throughout the text but it is not intended to exclude the wider field of trade and commerce, such as the service industries, where the term 'shopping' is not altogether appropriate.

Price ONE SHILLING NET by post 1s 4d
£1 for 25 copies. £3 for 100 copies.

DECIMAL CURRENCY BOARD

New money in your shop

**On D Day—15 February 1971**—the United Kingdom will introduce decimal currency. It is a more efficient money system which will bring benefits in quicker and easier cash handling and accounting.

The Decimal Currency Board will prepare the general public for the change by launching a nation-wide campaign of information and explanation during the weeks immediately before D Day. *You* need to plan and to act well before then. You are urged to make preparations now, since experience in other countries has clearly shown that shops which plan ahead in detail and thus adapt themselves readily to the new system have trading advantages over those which assume that somehow all will be well on the day. The aim of this booklet is to tell you how your business is likely to be affected, and to offer advice on what you can do to prepare for this revolution in our money habits.

**What is going to happen?**

The pound sterling remains the same in value, and in the colour, size and design of the note itself. The higher value notes—the £5 and £10 denominations will remain the same. The £20 note, which is to be introduced in 1970, will also be unchanged.

Shillings and pence as we now know them will disappear, to be replaced by new pence. There will be 100 new pennies to the £, and we shall have six

Hwyrach nad ydych yn sylweddoli, ond mae'r arian a ddefnyddiwn heddiw yn rhan o system ddegol, gyda 100 ceiniog i'r bunt. Mae hyn yn eithaf newydd ac ond wedi bod o gwmpas am hanner can mlynedd.

THE ROYAL MINT MUSEUM


Cyn hyn, roedd system yn y Deyrnas Unedig a fu o gwmpas am ganrifoedd oedd yn wahanol iawn ac yn llawer mwy cymhleth. Roedd gennym bunnoedd a cheiniogau bryd hynny ond roedd gennym hefyd ddarnau arian o’r enw sylltau ac roedd mathemateg ein harian yn wahanol iawn. Yn hytrach na bod yna 100 ceiniog i’r bunt, roedd 240. Mae hyn oherwydd bod arian cyn y degoli’n seiliedig ar luosi gan ddeuddeg, lle mae’r arian degol a ddefnyddiwn heddiw yn seiliedig ar luosi gan ddeg.



THE ROYAL MINT MUSEUM

**Y newid**


Cyhoeddwyd ym 1966 y byddai'r Deyrnas Unedig yn newid eu harian o'r hen system i'r arian degol newydd. Y dyddiad a bennwyd ar gyfer y newid oedd 15 Chwefror 1971, diwrnod a fyddai'n cael ei adnabod fel Diwrnod y Degoli neu Ddiwrnod D yn fyr. Erbyn hyn, roeddem yn un o'r ychydig wledydd nad oedd yn defnyddio arian degol, felly roedd angen i ni foderneiddio a dal i fyny gyda gweddill y byd.





Roedd hi'n dasg anferthol paratoi'r wlad ar gyfer y newid. Byddai'n rhaid i bawb ddysgu sut i ddefnyddio'r arian newydd, byddai'n rhaid dylunio darnau arian ac arian papur newydd, byddai'n rhaid newid tiliau siopau a pheiriannau gwerthu er mwyn iddynt allu cymryd yr arian newydd, byddai'n rhaid i werslyfrau ysgol hyd yn oed cael eu newid er mwyn helpu addysgu plant i ddefnyddio arian degol yn hytrach na'r hen bunnoedd, sylltau a cheiniogau yr oeddent wedi arfer â nhw.

THE ROYAL MINT
MUSEUM

Sefydlwyd grŵp o’r enw’r Bwrdd Arian Degol gan lywodraeth y dydd i oruchwylio’r newid ac i wneud yn siŵr fod y cyfan yn rhedeg yn llyfn.








Lansiwyd ymgyrch wybodaeth gyhoeddus fawr i helpu pobl i fod yn barod ar gyfer Diwrnod y Degoli. Dangoswyd ffilmiau gwybodaeth ar y teledu, argraffwyd llyfrynnau a phosteri am ddegoli arian a ddangoswyd mewn siopau a banciau, ac roedd hyd yn oed caneuon wedi’u hysgrifennu am droi’n ddegol.

THE ROYAL MINT® MUSEUM

**Gwneud y darnau arian newydd**

Yn ystod y cyfnod hwn, roedd y Royal Mint yn y Gwynfryn yn Llundain. Hen ffatri ydoedd a adeiladwyd dros 150 mlynedd cyn hynny ac nid oedd wedi'i chynllunio i gynhyrchu'r holl filiynau o ddarnau arian degol newydd yr oedd eu hangen ar gyfer y newid. Penderfynwyd y byddai angen adeiladu bathdy newydd, mwy o faint a modern a dewiswyd safle yn Llantrisant yn Ne Cymru ar gyfer y gangen ddegol newydd. Dechreuodd y gwaith adeiladu ym 1967 a blwyddyn yn ddiweddarach, agorwyd y safle gan y frenhines a dechreuodd gynhyrchiant yr holl ddarnau arian newydd. Ar yr un pryd, roedd yr holl hen ddarnau arian yn dechrau cael eu casglu er mwyn iddynt allu cael eu toddi ac ailddefnyddio rhywfaint o'r metel am y rhai newydd.



Y Royal Mint yn Llundain.




Y Royal Mint yn Llantrisant.

THE ROYAL MINT® MUSEUM

Roedd llawer o bryder y byddai Diwrnod y Degoli ei hun yn achosi anhrefn oherwydd na fyddai pobl yn barod am y newid, ond gwnaeth y Bwrdd Arian Degol waith mor dda o gael y wlad gyfan yn barod, mi aeth y diwrnod yn llyfn iawn a heb ryw lawer o ffwdan.



Yn y pen draw, daeth y cynhyrchiant i ben yn y bathdy yn Llundain a symudodd yn barhaol i'r safle newydd yng Nghymru.



Y Royal Mint yn Llantrisant

**Gofynnwch a oes unrhyw un yn eich teulu neu'ch ysgol sy'n gallu cofio'r hen arian.**

**Sut credwch chi y byddai bywyd petaech yn dechrau defnyddio math newydd o arian?**

**Ydy hyn wedi gwneud i chi feddwl yn wahanol am y darnau arian a ddefnyddiwn?**

Copyright of the Royal Mint Museum 2020

www.royalmintmuseum.org.uk

@TheRoyalMintMuseum

@RoyalMintMuseum

royal_mint_museum

THE ROYAL MINT MUSEUM

REMEMBERING DECIMALISATION 1971 2021 WHAT'S THAT IN OLD MONEY?